

Ymgynghoriad am y ffioedd cofrestru i gymdeithion nyrsio

Cynnwys

Cyflwyniad	3
Nodau'r ymgynghoriad hwn	3
Crynodeb gweithredol	3
Strwythur cyfredol ein ffioedd.....	4
Pennu'r ffioedd ar gyfer cymdeithion nyrsio	5
Dadansoddiad o lefelau ffioedd posibl.....	5
Y ffioedd arfaethedig ar gyfer cymdeithion nyrsio.....	7
Ffioedd gwerthuso cymhwyster.....	7
Ffioedd cais am gofrestrriad cychwynnol	11
Ffioedd cadw, adnewyddu cofrestrriad ac ailfynediad.....	15
Ffioedd ychwanegol am gymwysterau cofrestradwy	16
Taliadau fesul cam a hawlio gostyngiad yn y dreth ar ffi gofrestru CNB	17
Y camau nesaf.....	17
Eich ymateb chi i'r ymgynghoriad hwn	17
Cwestiynau	17
Cyflwyno'ch ymateb.....	17
Cwestiynau	18
Atodiad 1.....	25

Cyflwyniad

- 1 Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (CNB) yw'r rheolydd gofal iechyd annibynnol ar gyfer nyrsys a bydwagedd yn y DU.
- 2 Rydym yn bodoli i ddiogelu'r cyhoedd trwy reoleiddio nyrsys a bydwagedd yn y DU. Rydym yn gwneud hyn trwy bennu safonau addysg, hyfforddiant, arfer ac ymddygiad, fel bod nyrsys a bydwagedd yn gallu darparu gofal iechyd o ansawdd uchel trwy gydol eu gyrfaeod.
- 3 Rydym yn cynnal cofrestr o nyrsys a bydwagedd sy'n bodloni'r safonau hyn, ac mae gennym brosesau clir a thryloyw er mwyn ymchwilio i nyrsys a bydwagedd nad ydynt yn llwyddo i gyflawni ein safonau. O 2019, byddwn yn rheoleiddio cymdeithion nyrsio hefyd.
- 4 Nodir ein rôl, ein swyddogaethau a'n pwerau yng Ngorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 ('y Gorchymyn').

Nodau'r ymgynghoriad hwn

- 5 Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio safbwyntiau am y ffioedd cofrestru y bydd CNB yn eu codi ar gymdeithion nyrsio er mwyn eu rheoleiddio. Mae'n nodi sut y mae'r ffi yn gysylltiedig â'r prosesau y byddwn yn eu defnyddio er mwyn cofrestru cymdeithion nyrsio.

Crynodeb gweithredol

- 6 Ym mis Hydref 2015, cyhoeddodd Llywodraeth y DU y byddai rôl gofal iechyd newydd yn cael ei sefydlu yn Lloegr, o'r enw cydymaith nyrsio.
- 7 Ym mis Ionawr 2017, cytunom i gais yr Adran Iechyd y dylem fod yn rheolydd cymdeithion nyrsio. Bellach, mae'r Llywodraeth yn mynd trwy'r broses o ddiwygio ein deddfwriaeth er mwyn rhoi grymoedd newydd i ni i reoleiddio'r proffesiwn newydd o fis Ionawr 2019. Mae ymgynghoriad¹ yr Adran Iechyd am newidiadau i'n deddfwriaeth yn awgrymu y bydd y dull o reoleiddio cymdeithion nyrsio yr un fath â'r hyn sy'n berthnasol i nyrsys a bydwagedd ar hyn o bryd yn fras.
- 8 Datblygwyd rôl y cydymaith nyrsio fel pont rhwng cynorthwywyr gofal iechyd a nyrsys cofrestredig graddedig. Bydd yn rôl annibynnol, yn ogystal â bod yn llwybr newydd i'w ddilyn er mwyn bod yn nyrs gofrestrdig. Bydd cymdeithion nyrsio yn gweithio gyda nyrsys cofrestredig i ddarparu gofal i gleifion.
- 9 Mae rheolyddion proffesiynol, gan gynnwys CNB, yn annibynnol ar y llywodraeth ac yn cael eu hariannu gan ffioedd a delir gan gofrestreion. Pennir ein ffioedd ar y lefel sy'n ofynnol er mwyn talu'r costau cyffredinol o reoleiddio'r proffesiynau yn ein cofrestr.

¹

<https://www.gov.uk/government/consultations/regulation-of-nursing-associates-in-england>

10 Mae'r Gorchymyn yn mynnu ein bod yn ymgynghori am unrhyw newidiadau arfaethedig i'n ffioedd. Yn yr ymgynghoriad hwn, rydym yn ceisio safbwyntiau felly am ein cynigion i gyflwyno ffioedd ar gyfer cymdeithion nyrsio.

11 Bydd rheoleiddio yn ein galluogi i sicrhau'r cyhoedd bod cymdeithion nyrsio yn meddu ar safonau uchel o ran medrusrwydd, eu bod yn diweddarau eu sgiliau a'u gwybodaeth, a'u bod yn atebol dros safon eu gwaith a'u hymddygiad. Bydd cofrestr CNB yn cynnwys rhan newydd ar gyfer cymdeithion nyrsio, y bydd modd i gyflogwyr ac aelodau'r cyhoedd ei chwilio, a byddwn yn ymchwilio os bydd pryderon ynghylch gwaith cydymaith nyrsio, gan weithredu os bydd angen gwneud hynny er mwyn diogelu'r cyhoedd.

12 Rydym yn cynnig bod strwythur ein ffioedd ar gyfer cymdeithion nyrsio yn adlewyrchu strwythur ein ffioedd ar gyfer nyrsys a bydwagedd. £120 yw'n prif ffi er mwyn ymuno â'r gofrestr a'n ffioedd cofrestru blynyddol (rydym yn adolygu ein ffioedd o bryd i'w gilydd). Rydym yn cynnig codi'r un ffioedd ar gymdeithion nyrsio, nyrsys a bydwagedd, oherwydd y bydd yr un dull rheoleiddio yn berthnasol i'r tri proffesiwn, felly bydd angen i ni dalu'r un costau.

13 Mae'r ymgynghoriad yn agored i bob rhanddeiliad ac rydym yn croesawu pob sylw ac awgrym. Bydd yn agored o 4 Rhagfyr 2017 tan 26 Chwefror 2018.

Strwythur cyfredol ein ffioedd

14 Mae'r ffioedd a delir gan ein cofrestreion yn talu am ein gweithgareddau rheoliadol, gan gynnwys cofrestru, ailddilysu, addasrwydd i wneud gwaith, addysg a datblygu safonau a'n gweithgareddau ymgysylltu.

15 Nodir categorïau ein ffioedd mewn deddfwriaeth (Rheolau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (Ffioedd) 2004)) a'r rhain yw:

15.1 ffioedd gwerthuso cymhwyster

15.2 ffioedd gwneud cais am gofrestriad cychwynnol

15.3 ffioedd cadw cofrestriad

15.4 ffioedd adnewyddu cofrestriad (ailddilysu)

15.5 ffioedd ailfyndiad

15.6 ffioedd ychwanegol am gymwysterau cofrestradwy a chofnodadwy

16 Mae mwyafrif y bobl sy'n cofrestru gyda ni wedi cwblhau eu haddysg a'u hyfforddiant yn y DU. Byddant yn talu £120 i ymuno â'n cofrestr (y ffi ymgeisio am gofrestriad cychwynnol). Ar ôl cofrestru, bydd yr holl gofrestreion yn talu £120 y flwyddyn i aros ar y gofrestr (y ffioedd cadw ac adnewyddu (ailddilysu)).

Pennu'r ffioedd ar gyfer cymdeithion nyrsio

Dadansoddiad o lefelau ffioedd posibl

17 Mae CNB yn rheolydd yn y DU, gan reoleiddio nyrsys a bydwagedd yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban. Mae'r gweinyddiaethau yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon wedi penderfynu peidio cyflwyno na rheoleiddio rôl y cydymaith nyrsio ar yr adeg hon. Felly, cymdeithion nyrsio yw'r proffesiwn cyntaf y byddwn yn ei reoleiddio mewn un o'r pedair gwlad yn unig: Lloegr.

18 Wrth ddatblygu'r ddeddfwriaeth er mwyn rheoleiddio cymdeithion nyrsio yn Lloegr, mae'r Llywodraeth wedi dilyn y fframwaith cyfredol ar gyfer nyrsys a bydwagedd. Mae hyn yn golygu y bydd yn rhaid i gymdeithion nyrsio wneud cais i ymuno â'n cofrestr a thalu ffioedd.

19 Rydym wedi ystyried nifer o ddulliau gweithredu posibl er mwyn pennu'r ffioedd ar gyfer cymdeithion nyrsio. Y ddau brif bosibilrwydd oedd:

19.1 y dylai cymdeithion nyrsio dalu'r un ffioedd ag y mae nyrsys a bydwagedd yn eu talu.

19.2 y dylai cymdeithion nyrsio dalu ffi wahanol i'r ffi a delir gan nyrsys a bydwagedd.


20 Bydd cymdeithion nyrsio yn destun yr un model rheoleiddio a'r un prosesau rheoliadol (er enghraifft, cofrestru, addasrwydd i wneud gwaith) â nyrsys a bydwagedd. Felly, yn absenoldeb tystiolaeth i'r gwrthwyneb (gan bod cymdeithion nyrsio yn broffesiwn newydd), nid oes modd i ni gymryd y bydd y costau o reoleiddio cymdeithion nyrsio yn wahanol iawn i'r costau sy'n gysylltiedig â rheoleiddio nyrsys a bydwagedd.

21 Os byddwn yn pennu ffi is na'r ffi a godir ar nyrsys a bydwagedd, ceir risg y byddai nyrsys a bydwagedd yn rhoi cymhorthdal i'r broses o reoleiddio cymdeithion nyrsio. Ni fyddai hyn yn ddymunol o safbwynt tegwch a rheoleiddio da.

22 Felly, ein dull gweithredu arfaethedig yw dylai cymdeithion nyrsio dalu'r un ffioedd â nyrsys a bydwagedd. Rydym wedi cymhwyso'r egwyddor hon ar gyfer y ffioedd a amlinellir yn yr adran ganlynol. Byddwn yn adolygu ein ffioedd o bryd i'w gilydd er mwyn sicrhau bod y ffioedd yr ydym yn eu gosod yn cyd-fynd â chostau rheoleiddio i'r holl gofrestreion.

23 Fel y dangosir yn Ffigur 1, mae'r ffi flynyddol a godwn (a'r ffi flynyddol arfaethedig ar gyfer cymdeithion nyrsio) yn is na'r rhan fwyaf o'r ffioedd blynyddol a godir gan reolyddion gofal iechyd eraill.

Ffigwr 1: Ffioedd cadw blynyddol rheolyddion gofal iechyd



24 Rydym yn fodlon ystyried dewisiadau eraill ac un o ddibenion yr ymgynghoriad hwn yw casglu awgrymiadau o'r fath. Bydd awgrymiadau a gefnogir gan dystiolaeth yn fwy grymus na'r rhai heb unrhyw dystiolaeth. Ni fydd ein Cyngor yn gwneud penderfyniad terfynol am lefel y ffioedd nes i ni ystyried yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad yn ofalus.

Cwestiwn 1:

A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno mewn egwyddor gyda'r ffaith y dylai strwythur y ffioedd ar gyfer cymdeithion nyrsio adlewyrchu strwythur cyfredol ein ffioedd?

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Dim syniad

Nodwch reswm dros eich ateb.

Y ffioedd arfaethedig ar gyfer cymdeithion nyrsio

25 Rhoddir crynodeb o'n dull gweithredu arfaethedig wrth bennu'r ffioedd ar gyfer cymdeithion nyrsio yn y paragraffau canlynol. Mae'r newidiadau arfaethedig i Reolau'r Cyngor a Nyrsio a Bydwreigiaeth (Ffioedd) 2014 yn Atodiad 1. Mae'r newidiadau arfaethedig hyn i'n Rheolau yn unol â'r newidiadau arfaethedig i'n Gorchymyn (y cyfeiriwyd atynt ym mharagraff 7) yn dod i rym.

Ffioedd gwerthuso cymhwyster

Ymgeiswyr sy'n meddu ar gymwysterau cymeradwy

26 Fel rhan o'n rôl fel y rheolydd, rydym yn pennu'r safonau ar gyfer addysg nyrsio a bydwreigiaeth yn y DU a byddwn yn sicrhau ansawdd rhaglenni addysg yn y DU. Byddwn yn gwneud hyn trwy gymeradwyo darparwyr addysg i ddarparu rhaglenni nyrsio a bydwreigiaeth ar sail ein safonau addysg. Yna, byddwn yn sicrhau bod y darparwyr hyn yn atebol er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn parhau i fodloni ein safonau.

27 Felly, gallwn deimlo'n fodlon bod pobl sy'n meddu ar gymwysterau a ddyfarnwyd gan y darparwyr hyn yn y DU a gymeradwywyd, wedi bodloni ein safonau ni heb yr angen i ni wneud gwaith gwerthuso pellach, ac o ganlyniad, ni fyddwn yn codi ffi gwerthuso cymhwyster ar nyrsys a bydwagedd sydd wedi hyfforddi trwy gyfrwng rhaglenni cymeradwy yn y DU.

Ymgeiswyr sy'n gymdeithion nyrsio ac sydd wedi hyfforddi yn Lloegr

28 Ar gyfer cymdeithion nyrsio, dim ond i Loegr y bydd ein pwerau i bennu safonau a sicrhau ansawdd rhaglenni addysg yn ymestyn. O ganlyniad, ni chodir ffi werthuso ar gymdeithion nyrsio sy'n meddu ar gymwysterau cymeradwy a ddyfarnwyd yn Lloegr. Bydd angen gwahanol ddull gweithredu ar gyfer y rhai sy'n gwneud cais am le ar y gofrestr cymdeithion nyrsio ac sy'n meddu ar gymwysterau a ddyfarnwyd yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, gan na fydd eu cymwysterau nhw wedi cael eu cymeradwyo gennym ni. Amlinellir hyn ym mharagraffau 43-46 isod.

Ymgeiswyr sy'n meddu ar gymwysterau eraill

29 Os bydd pobl sy'n gwneud cais i ymuno â'n cofrestr yn meddu ar gymwysterau a ddyfarnwyd mewn gwledydd lle nad oes gennym y grym i gymeradwyo cymwysterau ynddynt, bydd angen i ni werthuso eu cymhwyster. Trosglwyddir y gost o wneud hyn i'r ymgeisydd trwy gyfrwng ffi gwerthuso cymhwyster.

Ymgeiswyr sydd wedi hyfforddi yn UE/AEE

30 Ceir sawl ffordd y gall unigolion sydd wedi hyfforddi yng ngwledydd UE/AEE ymuno â'n cofrestr.

31 Dan ddeddfwriaeth Ewropeaidd, mae gan rai yr hawl i gael eu cymwysterau wedi'u cydnabod yn awtomatig. Efallai y bydd eraill yn gymwys i gael eu cydnabod dan lwybr y 'system gyffredinol'. Mae llwybr y 'system gyffredinol' yn mynnu ein bod yn asesu cymwysterau ymgeisydd yn unigol trwy gymharu'r hyfforddiant a gwblhawyd yn eu gwlad nhw gyda'n gofynion hyfforddiant yn y DU, gan gynnig mesurau cymhwyso, yn ôl yr angen.

32 I ddechrau, prosesir pob cais y byddwn yn ei gael gan ymgeiswyr sydd wedi hyfforddi yn UE/AEE trwy'r un system, ac ystyrir pob cais yn unigol. Cynhelir proses archwilio gychwynnol o'r ddogfennaeth, cyn y bydd ar gael i'w hasesu. Dim ond ar yr adeg hon y bydd modd pennu a yw ymgeisydd yn gymwys i gael eu cydnabod yn awtomatig gan ddeddfwriaeth cydnabod cydfuddiannol neu a fydd angen iddynt wneud cais trwy lwybr y 'system gyffredinol', sy'n cynnwys gwaith gwerthuso pellach. Felly, mae cost ffi werthuso UE/AEE yn cynrychioli cost gyfartalog cais UE/AEE, oherwydd ni fyddai modd pennu'r ffi a'i thalu ymlaen llaw fel arall. Gan bod mwyafrif y ceisiadau a wneir gan nyrsys a bydragedd yn gymwys i gael eu cydnabod yn awtomatig, mae hyn yn dwyn cost gyfartalog proses werthuso UE/AEE yn is na'r gost gwerthuso ar gyfer ymgeiswyr sydd â chymwysterau a ddyfarnwyd mewn gwledydd nad ydynt yn wledydd UE/AEE. Er mwyn talu costau'r broses hon, byddwn yn codi ffi gwerthuso cymhwyster o £100 ar ymgeiswyr.

33 Os bydd y gwerthusiad yn amlygu gwahaniaethau sylweddol rhwng hyfforddiant yr ymgeisydd a gofynion hyfforddiant y DU, caniateir i'r ymgeisydd wneud iawn am y gwahaniaethau hynny trwy gyfrwng mesur cymhwyso (naill ai cyfnod addasu neu brawf cymhwyster).

34 Yn dilyn y broses hon, os na fydd unigolyn yn bodloni ein gofynion o hyd, ni allant barhau gyda'u cais am gofrestrriad.

Cynnig ar gyfer cymdeithion nyrsio

35 Ni fydd ymgeiswyr i ran y gofrestr ar gyfer cymdeithion nyrsio ac sydd wedi hyfforddi yn UE/AEE yn gymwys i fanteisio ar y broses cydnabod awtomatig, felly byddent yn gwneud cais trwy lwybr y 'system gyffredinol' a ddisgrifiwyd uchod. Gan nad ydym yn gwahaniaethu rhwng ymgeiswyr sy'n gymwys i fanteisio ar y broses cydnabod awtomatig a'r rhai sy'n gymwys ar gyfer llwybr y 'system gyffredinol' ar hyn o bryd o ran y ffi a godwn, cynigiwn y dylid ymestyn y dull gweithredu hwn i ymgeiswyr sy'n gymdeithion nyrsio ac sydd wedi hyfforddi yn UE/AEE. Byddai hyn yn golygu y byddent yn talu ffi werthuso o £110. Byddwn yn parhau i adolygu'r costau hyn wrth i ni barhau i wella effeithlonrwydd ein proses ymgeisio ac asesu effaith y defnydd cynyddol o'r Cerdyn Proffesiynol Ewropeaidd ar gyfer nyrsys.

36 Rydym yn cydnabod y ffaith bod yr ymgynghoriad hwn a'r cam arfaethedig o agor rhan cymdeithion nyrsio y gofrestr ym mis Ionawr 2019 yn digwydd mewn cyfnod pan fydd y DU yn gadael UE ar 29 Mawrth 2019. Ystyrir yr ystyriaethau hyn fel rhan o'r adolygiad o'n prosesau.

Cwestiwn 2:

A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai'r ffi gwerthuso cymhwyster ar gyfer ymgeiswyr i ran y gofrestr ar gyfer cymdeithion nyrsio, sydd wedi hyfforddi yn UE/AEE, fod yr un fath â'r ffi a godir ar nyrsys a bydwagedd, sef £110 ar hyn o bryd?

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Dim syniad

Nodwch reswm dros eich ateb.

Ymgeiswyr sydd wedi hyfforddi y tu allan i UE/AEE

37 Pan fydd rhywun sy'n meddu ar gymwysterau a ddyfarnwyd y tu allan i'r DU yn gwneud cais i ymuno â'r gofrestr, bydd angen i ni deimlo'n fodlon bod eu cymwysterau yn bodloni'r safonau yr ydym yn eu gosod ar gyfer nyrsys a bydwagedd yn y DU.

38 Mae hyn yn cynnwys proses werthuso sy'n cynnwys asesiadau o'u trawsgrifiadau a'u tystysgrifau cymhwyso, ac archwiliadau o'u dogfennau hunaniaeth. Cynhelir y broses asesu hon ar sail unigol. Er mwyn talu costau'r broses hon, byddwn yn codi ffi werthuso o £140 ar yr ymgeiswyr hyn.

39 Yn ogystal, mae gofyn i ymgeiswyr cymwys sydd wedi hyfforddi y tu allan i UE/AEE sefyll prawf cymhwysedd sy'n cynnwys dwy ran.

40 Yn dilyn y broses hon, os na fydd unigolyn yn bodloni ein gofynion o hyd, ni fydd modd iddynt barhau gyda'u cais i gofrestru.

Y cynnig ar gyfer cymdeithion nyrsio

41 Bydd ymgeiswyr i ran y cymdeithion nyrsio o'r gofrestr, sydd wedi hyfforddi y tu allan i UE/AEE, yn destun yr un proses werthuso ag ymgeiswyr sy'n nyrsys ac sy'n fydwagedd. Am y rheswm hwn, cynigiwn y dylid pennu mai'r ffi werthuso ar gyfer yr ymgeiswyr hyn sy'n gymdeithion nyrsio fydd £140.

42 Mae'r prosesau yr ydym yn eu defnyddio er mwyn asesu ceisiadau nyrsys a bydwagedd gan unigolion sydd wedi hyfforddi y tu allan i UE/AEE yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd, ac fe allent newid yn y dyfodol. Bydd unrhyw newidiadau i'n prosesau ymgeisio ar gyfer pobl sydd wedi hyfforddi y tu allan i UE/AEE yn dilyn yr adolygiad hwnnw yn berthnasol i gymdeithion nyrsio hefyd. Efallai y bydd y newidiadau yn arwain at newid yn y ffioedd gwerthuso cymhwyster neu'r cais cofrestru cychwynnol, a byddwn yn ymgynghori am hyn.

Cwestiwn 3:

A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai'r ffi am werthuso cymhwyster i ymgeiswyr i ran cymdeithion nyrsio y gofrestr ac sydd wedi hyfforddi y tu allan i UE/AEE fod yr un fath â'r ffi ar gyfer nyrsys a bydwagedd, sef £140 ar hyn o bryd?

- **Cytuno'n gryf**
- **Cytuno**
- **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno**
- **Anghytuno**
- **Anghytuno'n gryf**
- **Dim syniad**

Nodwch reswm dros eich ateb.

Ymgeiswyr sydd wedi hyfforddi yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon

43 Rydym yn rheoleiddio nyrsys a bydwagedd ar draws y DU, ond dim ond yn Lloegr y byddwn yn rheoleiddio cymdeithion nyrsio. Mae hyn yn golygu y bydd unrhyw ymgeiswyr i ran cymdeithion nyrsio ein cofrestr sydd wedi hyfforddi yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn dibynnu ar amrediad o gymwysterau, na fydd unrhyw un ohonynt wedi cael eu dyfarnu gan ddarparwr wedi'i gymeradwyo gan CNB i ddarparu hyfforddiant cymdeithion nyrsio. Felly, bydd angen iddynt gael gwerthusiad er mwyn pennu a ydynt yn bodloni ein gofynion addysg a hyfforddiant neu beidio.

Cynnig ar gyfer cymdeithion nyrsio

44 Ni fydd ymgeiswyr i ran cymdeithion nyrsio y gofrestr sydd wedi hyfforddi yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn cael budd gan 'system gyffredinol' UE neu ddeddfwriaeth cydnabyddiaeth awtomatig gydfuddiannol, gan nad ydynt yn ceisio mynediad i broffesiwn yn y DU sy'n dibynnu ar gymwysterau a ddyfarnwyd mewn gwahanol aelod-wladwriaeth.

45 Bydd y broses y byddwn yn ei defnyddio er mwyn gwerthuso ceisiadau i ran cymdeithion nyrsio y gofrestr gan unigolion sy'n meddu ar gymwysterau a ddyfarnwyd yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn debyg i'r broses yr ydym yn ei defnyddio ar hyn o bryd er mwyn gwerthuso ceisiadau a wneir gan nyrsys a bydwagedd o'r tu allan i UE/AEE. Mae hyn oherwydd y bydd gofyn i ni gael tystiolaeth debyg, gan gynnwys tystysgrifau cymwysterau a thrawsgrifiadau, er mwyn cynnal asesiad unigol a sicrhau bod ymgeiswyr yn bodloni ein safonau cyn eu caniatáu ar ein cofrestr. Byddai hyn yn golygu y byddai gofyn i ymgeiswyr sydd wedi cael eu haddysgu yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon dalu ffi gwerthuso cymhwyster o £140.

46 Rydym yn cydnabod bod hwn yn fater cymhleth, gan mai hwn fydd y tro cyntaf y bydd CNB yn rheoleiddio proffesiwn mewn un o bedair gwlad y DU yn unig, fodd bynnag, am y rhesymau a amlinellwyd uchod, credwn mai hwn yw'r dull cywir i'w fabwysiadu. Gallai hyn newid yn y dyfodol, gan ddibynnu ar ganlyniad yr adolygiad yr ydym yn ei gynnal am ein prosesau gwerthuso. Felly, mae gennym ddiddordeb arbennig mewn clywed safbwyntiau rhanddeiliaid am ein cynigion ar

gyfer ymgeiswyr sy'n dymuno ymuno â rhan cymdeithion nyrsio y gofrestr ac sydd wedi hyfforddi yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Cwestiwn 4:

A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno gyda'r ffaith y dylai'r ffi gwerthuso cymhwyster ar gyfer ymgeiswyr i ran cymdeithion nyrsio y gofrestr ac y maent wedi hyfforddi yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, fod yn £140?

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Dim syniad

Nodwch reswm dros eich ateb.

Crynodeb o'r ffioedd gwerthuso cymhwyster arfaethedig

47 Rhoddir trosolwg o'r ffioedd gwerthuso cymhwyster arfaethedig ar gyfer cymdeithion nyrsio yn y tabl canlynol.


Gwlad yr enillwyd y cymhwyster ynddi	Ffi gwerthuso cymhwyster arfaethedig
Lloegr	Dim ffi gwerthuso cymhwyster (gan ei fod yn gymhwyster cymeradwy)
Gwlad UE/AEE	£110
Gwlad nad yw'n wlad UE/AEE	£140
Cymru, yr Alban neu Ogledd Iwerddon	£140

Ffioedd cais am gofrestrriad cychwynnol

48 Ar ôl i ni werthuso'u cymhwyster, bydd angen i ni asesu cais ymgeisydd am gofrestrriad llawn, a bydd yn rhaid iddynt dalu ffi cais am gofrestrriad cychwynnol. Bydd hon yn cynnwys blwyddyn gyntaf eu cyfnod cofrestru cyntaf hefyd (tair blynedd yw hyd cyfnod cofrestru).

49 Yn 2014, adolygom y gost o gyflawni ein swyddogaethau a'n hymrwymiaid statudol, a'r ffioedd a delir gan nyrsys a bydwagedd. Roedd hwn yn dangos bod y gost flynyddol o reoleiddio yn £120 fesul cofrestrai. Dangosir dadansoddiad o gost gyfredol rheoleiddio fesul cofrestrai ar draws ein holl swyddogaethau rheoliadol yn Ffigwr 2.

Ffigwr 2: Dadansoddiad o'r ffi gofrestru o £120 ar gyfer nyrsys a bydwagedd (ar sail data o 2016)



50 Yn dilyn yr adolygiad, a oedd yn cynnwys ymgynghoriad cyhoeddus², aethom ati i ddiwygio ein deddfwriaeth er mwyn adlewyrchu costau hollgynhwysol rheoleiddio yn ein ffioedd.

51 Oherwydd y bydd cymdeithion nyrsio yn destun ein holl swyddogaethau rheoliadol (safonau, addysg, cofrestru, ailddilysu, addasrwydd i wneud gwaith) yn yr un ffordd â nyrsys a bydwagedd, nid oes gennym unrhyw sail dros gymryd y bydd costau hollgynhwysol rheoleiddio yn is, neu'n uwch. Felly, rydym yn cynnig y dylai strwythur y ffi cais am gofrestriad cychwynnol ar gyfer cymdeithion nyrsio adlewyrchu'r hyn a godir ar nyrsys a bydwagedd.

Ymgeiswyr sydd wedi hyfforddi yn y DU

52 Ar hyn o bryd, rydym yn codi ffi cais am gofrestriad cychwynnol o £120 ar ymgeiswyr sydd wedi hyfforddi yn y DU.

Cynnig ar gyfer cymdeithion nyrsio

53 Am y rhesymau a amlinellwyd ym mharagraffau 17-23, rydym yn cynnig codi'r un ffi ar ymgeiswyr i ran cymdeithion nyrsio y gofrestr sy'n meddu ar gymwysterau a ddyfarnwyd yng Nghymru, Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon. Ar yr adeg hon, ni ellir cyfiawnhau codi ffi cais am gofrestriad cychwynnol wahanol arnynt i'r un yr ydym yn ei chodi ar yr holl ymgeiswyr eraill sydd wedi hyfforddi yn y DU.

² www.nmc.org.uk/about-us/consultations/past-consultations/2014-consultations/fee-increase-consultation/

Cwestiwn 5:

A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai'r ffi cais am gofrestrriad cychwynnol i ymgeiswyr i ran cymdeithion nyrsio y gofrestr sydd wedi hyfforddi yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon fod yr un peth â'r ffi ar gyfer nyrsys a bydwagedd, sef £120 ar hyn o bryd?

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Dim syniad

Nodwch reswm dros eich ateb.

Unigolion sy'n hyfforddi i fod yn gymdeithion nyrsio cyn y bydd y trefniadau rheoleiddio mewn grym

54 Yn dilyn cyhoeddiad yr Ysgrifennydd Gwladol, datblygodd Health Education England (HEE) raglen beilot i ddarparu hyfforddiant i 2,000 o gymdeithion nyrsio dan hyfforddiant yn Lloegr. Roeddent wedi cychwyn ar eu hyfforddiant ar ddechrau 2017, a disgwyliwn i'r cymdeithion nyrsio cyntaf gymhwyso a dechrau gweithio yn gynnar yn 2019. Yn ychwanegol i'r rhaglen beilot hon, datblygwyd safon prentisiaeth i gymdeithion nyrsio dan hyfforddiant a disgwyliwn y bydd rhai hyfforddeion yn cychwyn ar eu prentisiaethau cyn 2019.

55 Er y bydd yr unigolion hyn wedi cychwyn ar eu hyfforddiant cyn i ni fod yn rheolydd cymdeithion nyrsio, bydd newidiadau i'n deddfwriaeth (y mae'r Llywodraeth yn ymgynghori amdanynt ar hyn o bryd) yn cynnig llwybr i'r hyfforddeion penodol hyn i ymuno â'n cofrestr ar ôl iddynt gymhwyso. Bydd gofyn iddynt fodloni ein safonau medrusrwydd, yna byddant yn cael eu trin fel rhywun sy'n meddu ar gymhwyster cymeradwy.

56 Bwriadwn godi ffi gofrestru gychwynnol o £120 ar yr unigolion hyn.

Cwestiwn 6:

A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai'r ffi cais am gofrestrriad cychwynnol ar gyfer yr unigolion hynny sy'n hyfforddi i fod yn gymdeithion nyrsio cyn y bydd y trefniadau rheoleiddio mewn grym, fod yr un fath â'r ffi a godir ar nyrsys a bydwagedd, sef £120 ar hyn o bryd?

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Dim syniad

Nodwch reswm dros eich ateb.

Ymgeiswyr sydd wedi hyfforddi yn UE/AEE

57 Ar hyn o bryd, rydym yn codi ffi cais am gofrestrriad cychwynnol o £120 ar ymgeiswyr sy'n meddu ar gymwysterau a ddyfarnwyd yn UE/AEE.

Cynnig ar gyfer cymdeithion nyrsio

58 I ymgeiswyr i ran cymdeithion nyrsio y gofrestr ac sydd wedi hyfforddi mewn gwledydd UE/AEE, rydym yn cynnig codi'r un ffi cais am gofrestrriad cychwynnol o £120.

Cwestiwn 7:

A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai'r ffi cais am gofrestrriad cychwynnol i ymgeiswyr i ran cymdeithion nyrsio y gofrestr ac sydd wedi hyfforddi yn UE/AEE fod yr un peth â'r ffi ar gyfer nyrsys a bydwragedd, sef £120 ar hyn o bryd?

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Dim syniad

Nodwch reswm dros eich ateb.

Ymgeiswyr sydd wedi hyfforddi y tu allan i UE/AEE

59 Y ffi cais am gofrestrriad cychwynnol i unigolion sy'n meddu ar gymwysterau rhyngwladol yw £153 ar hyn o bryd. Mae'r gwahaniaeth o ran lefel y ffi ar gyfer yr unigolion hynny sy'n gwneud cais o'r tu allan i UE/AEE yn adlewyrchu'r costau gweinyddol ychwanegol y bydd yn rhaid i ni eu talu wrth brosesu eu ceisiadau nhw am gofrestrriad cychwynnol.

Cynnig ar gyfer cymdeithion nyrsio

60 Oherwydd y bydd y prosesau hyn yr un fath i ymgeiswyr i ran cymdeithion nyrsio y gofrestr sy'n meddu ar gymwysterau o'r tu allan i UE/AEE, rydym yn cynnig codi'r un ffi cais am gofrestrriad cychwynnol ar yr ymgeiswyr hyn, sef £153.

61 Fel y nodwyd uchod, mae'r prosesau yr ydym yn eu defnyddio ar gyfer y ceisiadau hyn yn cael eu hadolygu, felly gallai'r ffi hon newid yn y dyfodol hefyd.

Cwestiwn 8:

A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai'r ffi cais am gofrestrriad cychwynnol i ymgeiswyr i ran cymdeithion nyrsio y gofrestr sydd wedi cael eu hyfforddi y tu allan i UE/AEE fod yr un fath â'r hyn a godir ar nyrsys a bydwagedd, sef £153 ar hyn o bryd?

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Dim syniad

Nodwch reswm dros eich ateb.

Crynodeb o'r ffioedd cais am gofrestrriad cychwynnol arfaethedig

62 Nodir y ffioedd cais am gofrestrriad cychwynnol yr ydym yn bwriadu eu codi ar gymdeithion nyrsio yn y tabl canlynol.

Gwlad yr enillwyd y cymhwyster ynddi	Swm y ffi cais am gofrestrriad cychwynnol
Cymru, Lloegr, yr Alban, Gogledd Iwerddon	£120
Gwledydd UE/AEE	£120
Heb fod yn wledydd UE/AEE	£153

Ffioedd cadw, adnewyddu cofrestrriad ac ailfyndiad

63 Fel y nodwyd uchod ym mharagraff 48, mae'r ffi cais am gofrestrriad cychwynnol yn cynnwys blwyddyn gyntaf y cyfnod cofrestru cychwynnol o dair blynedd. Am y ddwy flynedd nesaf, bydd cofrestrreion yn talu ffi gadw flynyddol er mwyn cynnal eu cofrestrriad. Mae'r ffi flynyddol hon yr un fath i bob cofrestrai, ble bynnag y maent wedi hyfforddi. Ar ddiwedd eu cyfnod cofrestru, rhaid iddynt fynd trwy broses ailddilysu a thalu ffi i adnewyddu eu cofrestrriad. Ar yr adeg hon, bydd cyfnod cofrestru newydd yn cychwyn. Yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus y cyfeiriwyd ato ym mharagraff 50, pennwyd mai £120 fyddai'r ffioedd cadw ac adnewyddu hyn i bob cofrestrai. Mae hyn yn golygu bod pob cofrestrai yn talu ffi flynyddol o £120 ar ôl iddynt gofrestru.

64 Os bydd cofrestriad unigolyn yn dod i ben ac os byddant yn dymuno ailymuno â'r gofrestr, codir £120 arnynt am ailfynediad neu am adfer eu henw i'r gofrestr.

Cynnig ar gyfer cymdeithion nyrsio

65 Bwriadwn ymestyn y dull gweithredu hwn i gymdeithion nyrsio. Byddai hyn yn golygu y byddai pob cydymaith nyrsio yn talu ffi gadw flynyddol o £120 am hyd eu cyfnod cofrestru a ffi o £120 am adnewyddu eu cofrestriad ar ddiwedd y cyfnod hwn. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu y byddent yn talu £120 bob blwyddyn.

66 Yn ogystal, byddai cymdeithion nyrsio yn gorfod talu £120 er mwyn cael ailfynediad i'r gofrestr pe byddai eu cofrestriad yn dod i ben a phe byddent yn dymuno gwneud cais am ailfynediad iddi.

Cwestiwn 9:

A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylid pennu ffioedd cofrestru, ffioedd adnewyddu cofrestriad a ffioedd ailfynediad ar yr un lefel i gymdeithion nyrsio â'r ffioedd a godir ar nyrsys a bydwagedd, sef £120 ar hyn o bryd?

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Dim syniad

Nodwch reswm dros eich ateb.

Ffioedd ychwanegol am gymwysterau cofrestradwy

67 Rydym yn codi £23 ar unigolion i gofnodi cymhwyster arall ar y gofrestr. Er enghraifft, pe byddai nyrs gofrestredig yn dymuno cofnodi cymhwyster fel bydwraig hefyd, byddem yn codi £23. Bwriadwn ymestyn y dull gweithredu hwn i gymdeithion nyrsio.

Cwestiwn 10:

A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylid pennu mai £23 am gymhwyster cofrestradwy fydd y ffi er mwyn i gymdeithion nyrsio gofnodi cymwysterau ychwanegol, yn unol â'r ffioedd a delir gan nyrsys a bydwagedd?

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Dim syniad

Nodwch reswm dros eich ateb.

Taliadau fesul cam a hawlio gostyngiad yn y dreth ar ffi gofrestru CNB

68 Gall nyrsys a bydwagedd rannu cost eu ffi flynyddol ar draws pedwar rhandaliad chwarterol. Bydd modd i gymdeithion nyrsio fanteisio ar y dewis hwn hefyd.

69 Bydd cymdeithion nyrsio yn gallu hawlio gostyngiad yn y dreth ar eu ffi flynyddol trwy Gyllid a Thollau EM (CaThEM). Rydym yn annog pawb ar ein cofrestr i hawlio'r gostyngiad hwn yn y dreth³.

Y camau nesaf

70 Bydd yr ymgynghoriad hwn yn cychwyn ar 4 Rhagfyr 2017 ac yn gorffen ar 26 Chwefror 2018. Ni chaiff unrhyw ymatebion a wneir ar ôl y cyfnod hwn eu cynnwys yn y broses o ddadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad.

71 Bydd cwmni ymchwil annibynnol yn coladu ac yn dadansoddi'r holl ymatebion. Bydd ein Cyngor yn ystyried yr adroddiad am yr ymatebion i'r ymgynghoriad er mwyn cyfrannu at eu penderfyniad am y ffi gofrestru flynyddol.

Eich ymateb chi i'r ymgynghoriad hwn

72 Mae'n bwysig eich bod yn darllen y wybodaeth ganlynol cyn llenwi'r arolwg.

Cwestiynau

73 Mae pob cwestiwn yn ddewisol ac eithrio'r cwestiwn sy'n gofyn a ydych chi'n ymateb fel unigolyn neu fel sefydliad. Dadansoddir ymatebion gan unigolion a sefydliadau ar wahân, felly mae'n bwysig ein bod yn gwybod ym mha fodd yr ydych chi'n ymateb.

Cyflwyno'ch ymateb

74 Os ydych yn ymateb ar ran sefydliad, byddwn yn gofyn am eich enw chi ac enw'ch sefydliad (er y gallwch nodi eich bod yn dymuno i'ch ymateb fod yn ddienw).

75 Os ydych chi'n ymateb fel unigolyn, ni fyddwn yn gofyn am eich enw, felly ni fyddwch yn gallu diwygio'ch ymatebion ar ôl i chi eu cyflwyno. Yn ogystal, nid oes gennym gyfleuster er mwyn darparu cofnod o'ch ymatebion.

76 A fydddech gystal ag ymateb trwy'r ddolen ganlynol www.surveymonkey.co.uk/r/LNLLFDW.

3

<https://www.gov.uk/tax-relief-for-employees/professional-fees-and-subscriptions>

77 Os na allwch gyflwyno'ch ymateb trwy ddefnyddio'r arolwg ar-lein, gallwch gysylltu â ni ar consultations@nmc-uk.org er mwyn cael ffurf amgen.

Cwestiynau

1. A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno mewn egwyddor gyda'r ffaith y dylai strwythur y ffioedd ar gyfer cymdeithion nyrsio adlewyrchu strwythur cyfredol ein ffioedd?

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Dim syniad

Nodwch reswm dros eich ateb.

2. A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai'r ffi gwerthuso cymhwyster ar gyfer ymgeiswyr i ran y gofrestr ar gyfer cymdeithion nyrsio, sydd wedi hyfforddi yn UE/AEE, fod yr un fath â'r ffi a godir ar nyrsys a bydwagedd, sef £110 ar hyn o bryd?

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Dim syniad

Nodwch reswm dros eich ateb.

3. A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai'r ffi am werthuso cymhwyster i ymgeiswyr i ran cymdeithion nyrsio y gofrestr ac sydd wedi hyfforddi y tu allan i UE/AEE fod yr un fath â'r ffi ar gyfer nyrsys a bydwagedd, sef £140 ar hyn o bryd?

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Dim syniad

Nodwch reswm dros eich ateb.

4. A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno gyda'r ffaith y dylai'r ffi gwerthuso cymhwyster ar gyfer ymgeiswyr i ran cymdeithion nyrsio y gofrestr ac y maent wedi hyfforddi yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, fod yn £140?

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Dim syniad

Nodwch reswm dros eich ateb.

5. A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai'r ffi cais am gofrestrriad cychwynnol i ymgeiswyr i ran cymdeithion nyrsio y gofrestr sydd wedi hyfforddi yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon fod yr un peth â'r ffi ar gyfer nyrsys a bydwagedd, sef £120 ar hyn o bryd?

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Dim syniad

Nodwch reswm dros eich ateb.

6. A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai'r ffi cais am gofrestrriad cychwynnol ar gyfer yr unigolion hynny sy'n hyfforddi i fod yn gymdeithion nyrsio cyn y bydd y trefniadau rheoleiddio mewn grym, fod yr un fath â'r ffi a godir ar nyrsys a bydwagedd, sef £120 ar hyn o bryd?

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Dim syniad

Nodwch reswm dros eich ateb.

7. A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai'r ffi cais am gofrestrriad cychwynnol i ymgeiswyr i ran cymdeithion nyrsio y gofrestr ac sydd wedi hyfforddi yn UE/AEE fod yr un peth â'r ffi ar gyfer nyrsys a bydwagedd, sef £120 ar hyn o bryd?

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Dim syniad

Nodwch reswm dros eich ateb.

8. A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai'r ffi cais am gofrestriad cychwynnol i ymgeiswyr i ran cymdeithion nyrsio y gofrestr sydd wedi cael eu hyfforddi y tu allan i UE/AEE fod yr un fath â'r hyn a godir ar nyrsys a bydwagedd, sef £153 ar hyn o bryd?

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Dim syniad

Nodwch reswm dros eich ateb.

9. A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylid pennu ffioedd cofrestru, ffioedd adnewyddu cofrestriad a ffioedd ailfynediad ar yr un lefel i gymdeithion nyrsio â'r ffioedd a godir ar nyrsys a bydwagedd, sef £120 ar hyn o bryd?

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Dim syniad

Nodwch reswm dros eich ateb.

10. A ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylid pennu mai £23 am gymhwyster cofrestradwy fydd y ffi er mwyn i gymdeithion nyrsio gofnodi cymwysterau ychwanegol, yn unol â'r ffioedd a delir gan nyrsys a bydwagedd?

- Cytuno'n gryf
- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Anghytuno'n gryf
- Dim syniad

Nodwch reswm dros eich ateb.

Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Rydym wedi cynnal asesiad cydraddoldeb ac amrywiaeth cychwynnol o effaith ein cynigion. Byddem yn ddiolchgar pe bai modd i chi ateb y cwestiynau hyn gan bod y dystiolaeth hon yn cynorthwyo ein gwaith cydraddoldeb ac amrywiaeth, a bydd yn ein helpu i gwblhau ein hasesiad.

Mae'r nodweddion gwarchoddedig fel a ganlyn:

- Oedran
- Anabledd
- Ailbennu rhywedd
- Priodas a phartneriaeth sifil
- Hil
- Crefydd neu greddo
- Rhyw
- Cyfeiriadedd rhywiol
- Beichiogrwydd a mamolaeth

11. A fydd unrhyw rai o'r cynigion hyn yn cael effaith benodol ar bobl sy'n rhannu'r nodweddion gwarchoddedig hyn (gan gynnwys nyrsys, bydwragedd, cleifion a'r cyhoedd)?

- Disgwylir gweld effeithiau cadarnhaol ar y cyfan
- Disgwylir gweld effeithiau negyddol ar y cyfan
- Ni ddisgwylir gweld unrhyw effeithiau
- Dim syniad

Rhowch reswm dros eich ateb.

12. Sut allwn ddiwygio'r cynigion er mwyn hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da rhwng grwpiau?

Rhowch reswm dros eich ateb.

A fyddech gystal â llenwi'r arolwg hwn am eich cefndir a'r safbwyntiau yr ydych chi/eich sefydliad yn eu cynrychioli.

Rydym wedi ymrwmo i drin pawb yn deg ac i gyflawni ein cyfrifoldebau cyfreithiol dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a deddfwriaeth gysylltiedig (megis Deddf Hawliau Dynol 1998) a byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon er mwyn deall yn well a ydym yn ymgysylltu ag ystod eang ac amrywiol o bobl.

13. A ydych chi'n ymateb fel unigolyn neu ar ran grŵp neu sefydliad?

Fel unigolyn (ewch i gwestiwn 14)

Ar ran sefydliad (ewch i gwestiynau 22-28)

Unigolyn:

14. A ydych chi'n:

- Nyrs sydd wedi cofrestru yn y DU
- Bydwraig sydd wedi cofrestru yn y DU
- Nyrs a/neu fydwraig sydd wedi cofrestru mewn gwlad dramor
- Gweithiwr gofal iechyd proffesiynol arall
- Cyflogwr neu reolwr
- Addysgwr

- Myfyriwr nyrsio neu fydwreigiaeth
- Hyfforddai cydymaith nyrsio
- Aelod o'r cyhoedd, defnyddiwr gwasanaeth neu ofalwr
- Arall - nodwch
- Byddai'n well gennyf beidio dweud

15. Yn eich prif swydd, a ydych chi'n gwneud gwaith:

- Amser llawn (30 awr yr wythnos neu fwy)
- Rhan-amser (dan 30 awr yr wythnos)
- Byddai'n well gennyf beidio dweud

16. Rhyw

- Benyw
- Gwryw
- Anneuaidd
- Byddai'n well gennyf beidio dweud

17. Oedran

- Dan 25
- 25-34
- 35-44
- 45-54
- 55-64
- 65 a throsodd
- Byddai'n well gennyf beidio dweud

18. Anabledd – Dewiswch un dewis er mwyn dynodi a ydych chi'n ystyried eich hun fel rhywun sydd ag anabledd neu gyflwr iechyd hirdymor.

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn diffinio anabledd fel nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith hirdymor sylweddol (o leiaf 12 mis) ar allu unigolyn i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd.

- Ydw
- Nac ydw
- Byddai'n well gennyf beidio dweud

19. Ethnigrwydd

A: Gwyn

- Prydeinig, Cymro/Cymraes, Sais/Saesnes, Albanwr/Albanes, Gwyddel/Gwyddeles o Ogledd Iwerddon
- Gwyddel/Gwyddeles
- Sipsi neu deithiwr Gwyddelig
- Unrhyw gefndir gwyn arall, nodwch

B: Grwpiau ethnig cymysg neu luosog

- Gwyn a Du Caribiaidd
- Gwyn a Du Affricanaidd
- Gwyn ac Asiaidd
- Unrhyw gefndir ethnig cymysg neu luosog arall

C: Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig

- Indiaidd
- Pacistanaidd
- Bangladeshaidd
- Tsieineaidd
- Unrhyw gefndir Asiaidd arall

D: Du, Affricanaidd, Caribiaidd neu ddu Prydeinig

- Caribiaidd
- Affricanaidd
- Unrhyw gefndir du, Affricanaidd neu Garibiaidd arall

E: Grŵp ethnig arall

- Arabaidd
- Unrhyw grŵp ethnig arall

F: Byddai'n well gennyf beidio dweud

20. Crefydd

- Dim crefydd
- Bwdhydd
- Cristion
- Hindŵ
- Iddew
- Mwslim
- Sikh
- Unrhyw grefydd arall
- Byddai'n well gennyf beidio dweud

21. Cyfeiriadedd rhywiol

- Deurywiol
- Dyn hoyw
- Benyw hoyw neu lesbiad
- Heterorywiol neu strêr
- Byddai'n well gennyf beidio dweud

Grŵp neu sefydliad:

22. Pa un sy'n disgrifio'r math o sefydliad yr ydych chi'n gweithio iddo orau?

- Llywodraeth neu gorff cyhoeddus
- Rheolydd
- Sefydliad proffesiynol neu undeb llafur
- Cyflogwr GIG nyrsys neu fydwragedd
- Cyflogwr nyrsys a bydwagedd yn y sector annibynnol neu asiantaeth nyrsys a bydwagedd
- Darparwr addysg
- Sefydliad defnyddwyr neu gleifion
- Elusen/sector gwirfoddol
- Arall – nodwch

23. Nodwch enw'ch sefydliad

24. A fydech yn fodlon i'ch sylwadau gael eu priodoli i'ch sefydliad chi wrth adrodd?

- Byddwn. Rydw i'n fodlon i'm sylwadau gael eu priodoli i'm sefydliad i.
- Na fyddwn. A fydech gystal â chadw fy ymatebion yn ddienw.

25. Nodwch eich enw.

26. Nodwch deitl eich swydd.

27. Nodwch ble y mae'ch sefydliad yn gweithredu yn bennaf.

- Ar draws y DU
- Prydain
- Lloegr
- Gogledd Iwerddon
- Yr Alban
- Cymru
- Arall – nodwch

28. A yw'ch sefydliad yn cynrychioli safbwyntiau nyrsys/bydwagedd a/neu'r cyhoedd sy'n rhannu unrhyw rai o'r nodweddion gwarchoddedig canlynol yn swyddogol?

- Hŷn
- Iau
- Anabl
- Lleiafrifoedd ethnig
- Rhyw
- Lesbiaidd, Hoyw a Deurywiol
- Trawsrywiol
- Beichiogrwydd/mamolaeth
- Crefydd neu greddo

Atodiad 1

Drafft: The Nursing and Midwifery Council (Fees) (Amendment) Rules Order of Council 2018

STATUTORY INSTRUMENTS

2018 No. XXXXX

HEALTH CARE AND ASSOCIATED PROFESSIONS

NURSES AND MIDWIVES

The Nursing and Midwifery Council (Fees) (Amendment) Rules Order of Council 2018

Made - - - - ***

Laid before Parliament ***

Coming into force - - - ***

At the Council Chamber, Whitehall, the *** day of ***

By the Lords of Her Majesty's Most Honourable Privy Council

The Nursing and Midwifery Council has made the Nursing and Midwifery Council (Fees) (Amendment) Rules 2018 as set out in the Schedule to this Order, in exercise of the powers conferred by articles 7(1) and (2)(c), 33(7)(a) and 47(2) of the Nursing and Midwifery Order 2001⁽⁴⁾.

In accordance with article 7(3) and 47(3) of that Order, the Nursing and Midwifery Council has consulted representatives of any group of persons as it considers appropriate who appear likely to be affected by the Rules.

In accordance with articles 47(1) and 48 of the Nursing and Midwifery Order 2001, such rules shall not come into force until approved by order of the Privy Council.

Citation and Commencement

1. This Order may be cited as the Nursing and Midwifery Council (Fees) (Amendment) Rules Order of Council 2018 and comes into force on [insert date].

Council approval

2. Their Lordships, having taken these Rules into consideration, are pleased to and do approve them.

⁽⁴⁾ S.I. 2002/253; to which there are amendments not relevant to this Order

SCHEDULE
THE NURSING AND MIDWIFERY COUNCIL (FEES) (AMENDMENT)
RULES 2018

The Nursing and Midwifery Council makes the following Rules in exercise of the powers conferred by articles 7(1) and (2)(c), 33(7)(a) and 47(2) of the Nursing and Midwifery Order 2001⁽⁵⁾.

In accordance with articles 7(3) and 47(3) of that Order, the Nursing and Midwifery Council has consulted any group of persons as it considers appropriate who appear likely to be affected by these Rules.

Citation and commencement

1. These Rules may be cited as the Nursing and Midwifery Council (Fees) (Amendment) Rules 2018 and shall come into force on [insert date].

Amendment to the Nursing and Midwifery Council (Fees) Rules 2004

2. In the table in rule 3 (fees) of the Nursing and Midwifery Council (Fees) Rules 2004⁽⁶⁾—
- (a) in the entry of column (2) of row (a), for “(e) or (f)” substitute “(dd), (e) or (f) or article 13A”;
 - (b) in the entry of column (2) of row (c), for “or (d)” substitute “, (d) or (dd)”.

Given under the Common seal of the Nursing and Midwifery Council this [insert date] day of [insert month and year].

(L.S.)

Dame Janet Finch
Chair

Jackie Smith
Chief Executive and Registrar

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Order)

This Order, made under the Nursing and Midwifery Order 2001 (S.I. 2002/253), approves the Nursing and Midwifery Council (Fees) (Amendment) Rules 2018 made by the Nursing and Midwifery Council. These Rules amend the Nursing and Midwifery Council (Fees) Rules 2004 (S.I. 2004/1654) (“the 2004 Rules”).

Rule 2 amends rule 3 of the 2004 Rules by providing for the payment of fees in relation to applications for the registration of nursing associates who have the appropriate qualifications under Article 13(1)(dd)

⁽⁵⁾ S.I. 2002/253; to which there are amendments not relevant to these Rules.

⁽⁶⁾ Scheduled to S.I. 2004/1654, as amended by S.I. 2005/3353, S.I. 2007/1885, and 3101, S.I. 2011/2297, S.I. 2012/3026 and S.I. 2014/3139.

(approved qualifications)⁽⁷⁾ and Article 13A (transitional provisions relating to admission to the register)⁽⁸⁾ of the Order, and also amends rule 3 of the 2004 Rules by providing for the payment of fees in relation to the evaluation of information for applications made to the nursing associates' part of the register from Scotland, Wales and Northern Ireland. The Rules do not amend the level of fees in respect of applications for either registration or the evaluation of information for registration by an applicant.

DRAFT

⁽⁷⁾ Article 13(1)(dd) was inserted by xxx
⁽⁸⁾ Article 13A was inserted by xxx